Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## Diweddariad Chwarterol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd:

## Gorffennaf - Medi 2024

| Cyfanswm nifer y carcharorion sy’n oedolion yn y ddalfa | Cyfanswm nifer y carcharorion ifainc yn y ddalfa | Cyfanswm nifer y carcharorion yn y ddalfa | Nifer yr ymweliadau gan yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | Cyfanswm nifer y carcharorion yn y ddalfa adeg ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | Cyfanswm nifer y carcharorion ddim ar gael | Nifer y carcharorion a arsylwyd | Cyfanswm nifer y carcharorion yr ymwelwyd â nhw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1696 | 87 | 1783 | 23 | 89 | 13 | 47 | 29 |

*Oherwydd bod system cronfa ddata gyfrifiadurol newydd o’r enw Niche wedi dechrau o fis Mai 2023, ni all y data ar gyfer cyfanswm nifer y carcharorion fod yn fanwl gywir gan fod hyn ar hyn o bryd yn cynnwys arestiadau ychwanegol sy’n gysylltiedig â system gofnodion y ddalfa. Mae'r mater hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y tîm technegol.*


### Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Gweithredol: 13


- Sir Benfro: 3
- Powys: 3
- Ceredigion: 3
- Sir Gaerfyrddin: 4

*Ar hyn o bryd, mae pedwar ymgeisydd newydd wrthi’n cael eu fetio. Yn ogystal, mae tri gwirfoddolwr yn cymryd seibiant dros dro o’r cynllun.*


## Gorffennaf – Medi 2024


**Amseroedd Ymweliadau:**




**Diweddariad ar y Cynllun:**



**Materion Staffio**

- Tynnwyd sylw at faterion staffio fel y prif bryder yn ystod y chwarter diwethaf hwn. Mae nifer y materion wedi dyblu ers y chwarter diwethaf. Mae meysydd y nododd y panel eu bod wedi'u heffeithio'n cynnwys:
  1) 2 o'r Drenewydd 27/08/24 a 09/09/24;
  2) 5 o Hwlffordd 28/07/24, 31/07/24, 27/08/24, 07/09/24 a 16/09/24;
  3) 1 o Ddafen 16/09/2024.

  Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi pwysleisio na ellir gor-ddweud pa mor bwysig yw effaith diffyg staff ar les staff dalfeydd, cynnal hawliau carcharorion, ac unplygrwydd y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Yn ystod un ymweliad, nid oedd unrhyw aelodau staff ar gael i ganiatáu mynediad i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd o ddrws y ddalfa, gan arwain at ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn cysylltu â rheolwr y cynllun i hwyluso drwy Brif Arolygydd y Ddalfa i anfon neges at aelod staff drwy radio i ganiatáu mynediad iddynt. Ar ôl i'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd gael mynediad, nid oedd modd iddynt ymweld â charcharorion gan nad oedd neb ar gael i fod gyda nhw.

  Yn ystod ymweliadau eraill, nodwyd y canlynol gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd:
  1) Roedd gan un ddalfa 8 o garcharorion agored i niwed ac nid oedd yr un ohonynt yn medru cael mynediad at gyfleusterau glendid gan nad oedd staff ar gael i'w tywys i'r cawodydd.
  2) Mae'r prinder staff wedi arwain at gau dalfa, sy'n golygu bydd yn rhaid gyrru unrhyw garcharorion sy'n cael eu harestio yn yr ardal hon dros awr i gyrraedd dalfa.
  3) Cyfleoedd prin i garcharorion benywaidd gael mynediad at swyddogion o'r un rhyw.
  4) Mae hyfforddi swyddogion ymateb i helpu i leihau'r galw ar ddalfeydd yn lleihau nifer y swyddogion sydd ar gael i ddarparu ymateb plismona gweithredol.
  5) Mae prinder staff yn golygu bod mwy o berygl y bydd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn profi oedi o ran cael mynediad i'r ddalfa.

**Oedi Wrth Dderbyn Ymwelwyr i'r Ddalfa**

- Serch y pryderon a godwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd mewn perthynas â phrinder staff yn arwain at oedi wrth dderbyn ymwelwyr i'r ddalfa, dim ond un a gofnodwyd allan o 23 ymweliad, ac roedd hyn o ganlyniad i brinder staff. Mae hyn yn ostyngiad o'r nifer o weithiau y bu oedi yn ystod y chwarter diwethaf, sef 4. Mae hyn yn welliant a groesawir gan yr Heddlu.

**Gofal Iechyd, Galwadau Dewis 1 ac Eitemau Crefyddol**

- Dyma'r chwarter cyntaf lle nad yw ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi tynnu sylw at Weithwyr Gofal Iechyd fel pryder. Tra bod ymwelydd annibynnol â dalfeydd wedi mynegi pryderon am ddiogelwch cwpwrdd meddygol, ni chodwyd hwyluso a mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd ar gyfer carcharorion yn ystod y chwarter diwethaf. Yn ogystal, ni fu unrhyw bryderon mewn perthynas â derbyn galwadau i'r ddalfa gan aelodau o'r cyhoedd sy'n galw'r gwasanaeth 101 neu unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â chynhaliaeth eitemau crefyddol yn ystod y chwarter diwethaf hwn.

**Atgyweiriadau**

- Nododd ymwelwyr annibynnol yr atgyweiriadau canlynol yn ystod eu hymweliadau:

1) Nid oedd gatiau dalfa Aberystwyth yn cau'n iawn.
2) Nid oedd intercom Dafen yn weithredol o'r tu allan.

**Crynodeb o Faterion Eraill**

- Cofnododd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nifer o faterion eraill yn ystod y chwarter diwethaf, gan gynnwys ffôn ar gyfer y ddalfa (aed â'r llinell tir o ddalfa Aberystwyth ac nid oes un arall wedi dod yn ei le), cyflenwadau bwyd, staff yn dymuno cael ail sgrin cyfrifiadur, deunydd darllen, sbectol darllen, problem gyda phartneriaid allanol, cwpwrdd meddygol heb ei gloi, a theledu cylch cyfyng heb sain. Roedd yr unig broblem fynych yn ymwneud â'r golchdy yn Aberystwyth a'r Drenewydd. Nodwyd pryderon o ran y canlynol:

1) Nid oedd yr hyn a oedd yn cael ei ddychwelyd yn gyson â'r hyn a oedd yn cael ei gymryd i ffwrdd.
2) Roedd y darparwr golchdy wedi gadael y ddalfa heb unrhyw dywelion.

**Adborth Cadarnhaol**

- Adroddodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd am nifer o brofiadau cadarnhaol yn ystod eu hymweliadau â'r ddalfa'r chwarter hwn. Dyma giplun o rhai o'r sylwadau a wnaed:
  1) Roedd hi'n hawdd mynd at staff y ddalfa ac roeddent yn gyfeillgar iawn tuag at ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Adroddodd un ymwelydd annibynnol â dalfeydd:

     *"Roedd cyfathrebu a chefnogaeth y tîm ar ddyletswydd yn ganmoladwy. Roedd pob un yn amldasgio'n ddigynnwrf tra'u bod nhw'n cael eu cam-drin yn eiriol. Roedd gan bob carcharor gynllun, ond roeddent yn cael eu gadael i lawr gan asiantaethau eraill. Roedd gan y tîm 9 carcharor, rhingyll dalfa, swyddog cadw a nyrs. Roedd 8 o'r 9 carcharor yn agored i niwed. Gwaith tîm arbennig o dda."*

  2) Carcharorion yn canmol staff y ddalfa yn ystod ymweliadau'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.
  3) Adroddwyd bod safon y dalfeydd, yr iard ymarfer corff a'r gegin yn cael eu cadw'n dda a'u bod yn lân a thaclus.

**Panel Craffu'n Annibynnol ar Ddalfeydd**

- Ers i'r Panel Craffu'n Annibynnol ar Ddalfeydd gychwyn ym mis Mawrth 2024, mae'r panel wedi edrych ar Blant yn y Ddalfa, y Defnydd o Rym, a Gwendidau/Oedolion Priodol. Ym mis Awst, ailganolbwyntiodd y panel (sy'n cynnwys ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ac aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd) ar blant yn y ddalfa oherwydd adroddiad diweddar gan y Comisiynydd Plant yn nodi mai HDP oedd yn cynnal y nifer mwyaf o noeth chwiliadau ar garcharorion ifainc; er, ers hynny, mae'r Heddlu wedi cadarnhau bod y data a roddwyd ar gyfer adroddiad y Comisiynydd Plant yn anghywir. Nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto; fodd bynnag, ar y cyd â'r adroddiad hwn, mae'r adroddiad ar blant yn y ddalfa fis Mawrth, ac ymweliadau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, wedi cynnig sicrwydd bod noeth chwiliadau a'r defnydd o Ddillad Risg Diogelwch (Siwtiau Risg Diogelwch gynt) a gynhelir yn cael eu monitro.

**Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cynorthwyo â Diwrnodau Agored y Drenewydd ac Aberhonddu**

- Er mwyn cefnogi recriwtio ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a'r Cynllun Heddlu a Throseddu, aeth rheolwyr cynllun o dîm Sicrwydd SCHTh ac ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i ddiwrnodau agored cyhoeddus yng ngorsafoedd heddlu Aberhonddu a'r Drenewydd.

**Ymweliad CHTh â Dalfa Aberhonddu**




Ymwelodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â dalfa Aberhonddu ar 26 Medi 2024 ochr yn ochr ag ymweliad gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i gael diweddariad ar y cynllun ac asesu swyddogaeth y ddalfa o ddydd i ddydd. Dywedodd CHTh:
*"Roedd yn ymweliad cadarnhaol iawn â dalfa Aberhonddu, ac roedd hi'n dda gennyf weld â'm llygaid fy hun pa mor dda mae'r tîm yn rheoli'r gweithrediadau beunyddiol. Roedd y mewnbwn gan yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn amhrisiadwy o ran asesu lles carcharorion, ac rwyf dal yn ymrwymedig i sicrhau bod ein cyfleusterau'n parhau i fodloni'r safonau uchaf."*

**Recriwtio**

- Mae gennym dri ymwelydd annibynnol â dalfeydd newydd sydd wedi derbyn eu cliriad fetio ac sy'n disgwyl eu hyfforddiant cynefino. Bydd dau o'r gwirfoddolwyr hyn wedi'u lleoli yn Aberhonddu a'r llall yn Sir Benfro.
- Mae gennym bedwar yn disgwyl cliriad fetio. Bydd dau ohonynt wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin a bydd y ddau arall wedi'u lleoli yn Sir Benfro.
- Yn ystod y chwarter diwethaf, cymerodd tri gwirfoddolwr seibiant o'r cynllun. Mae un wedi dychwelyd i'r cynllun erbyn hyn, a bydd y llall yn dychwelyd yn ystod y chwarter nesaf.

Gorffennaf – Medi 2024

**Ymateb yr Heddlu:**

Mewn perthynas â'r arsylwadau uchod, dyma farn y Prif Arolygydd Jenna Jones, sy'n sylwi ar ran Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â'i myfyrdod dros y chwarter diwethaf:

*"Mae'n dda gweld y gwaith partneriaeth yn parhau rhwng ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a staff dalfeydd, ac mae'n addawol gweld gostyngiad yn nifer yr ymweliadau lle bu oedi o ran ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn cael mynediad i'r dalfeydd. Rwy'n ymwybodol fod hyn wedi creu heriau i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd o ran cyflawni eu rôl. Aed i'r afael â mynediad i'r dalfeydd gydag Arolygwyr Dalfa yn ystod y cyfarfodydd perfformiad misol fel eitem agenda safonol, felly mae'n dda gennyf weld y gwelliant a byddaf yn parhau i fonitro hyn.*

*Mae materion staffio wedi'u codi ac maen nhw wedi'u codi ymhellach gyda SCHTh a Phrif Swyddogion. Roedd rhai o'r heriau staffio'n ymwneud â salwch hirdymor, methiant Hyfforddiant Diogelwch Personol Cyhoeddus (sy'n rhaid ei weithredu yn y Ddalfa) a dyletswyddau cyfyngedig. Nid oedd modd osgoi'r heriau hyn. Fodd bynnag, cydnabu bod angen adolygu'r model gweithredu ar gyfer dalfeydd er mwyn cynnig mwy o gadernid ac osgoi defnyddio staff ymateb i lenwi bylchau. Mae dalfeydd yn ffurfio rhan o'r adolygiad goruchwylio, rotâu a'r model gweithredu presennol. Mae digwyddiadau ymgysylltu wedi'u cynnal er mwyn deall safbwynt staff, a bydd hyn yn cael ei gyfleu i Brif Swyddogion ym mis Tachwedd.*

*Mae'r cytundeb meddygol newydd wedi trosglwyddo i'r darparwr newydd, a fydd yn gweld mwy o ddarparwyr gofal iechyd yn nalfa'r Drenewydd a theimlad mwy proffesiynol i'r gwasanaeth a ddarperir yn gyffredinol. Byddwn ni'n monitro'r trawsnewid gyda'r darparwr newydd wrth iddo ymsefydlu, a chroesawn unrhyw ddiweddariadau gan wirfoddolwyr annibynnol â dalfeydd o ran sut y mae'r cytundeb yn gwasanaethu'r unedau.*

*Mae'r materion ystadau wedi'u hadrodd. Mae gatiau Aberystwyth yn cael eu trwsio yn ystod yr adnewyddiadau presennol.*

*Mae'r Panel Craffu'n Annibynnol ar Ddalfeydd yn profi'n adnodd gwerthfawr i'r dalfeydd, gan sicrhau bod dysgu'n cael ei nodi a bod meysydd cyfredol o ddiddordeb cenedlaethol yn cael eu hadolygu ac rydyn ni'n medru meincnodi ein hunain yn erbyn rhain; er enghraifft, gydag adroddiad*

*diweddar y Fonesig Vera Baird o gwmpas ein triniaeth o fenywod yn y ddalfa a noeth chwiliadau. Mae'r Panel Craffu'n Annibynnol ar Ddalfeydd yn darparu trosolwg tryloyw ac onest o'r meysydd y mae angen inni wella a'r meysydd lle'r ydym yn gwneud yn dda.*

*Hoffwn ddiolch i'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd am yr amser maen nhw'n rhoi er mwyn sicrhau ein bod ni'n dryloyw yn ein triniaeth o garcharorion a'u hadborth a'u cefnogaeth barhaus o'n Dalfeydd."*